Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth

Prynu cacennau

Deunyddiau cymorth i athrawon

Blwyddyn 6

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Blwyddyn 6 Rhesymu yn yr ystafell ddosbarth – Prynu cacennau

Mae'r gweithgareddau hyn ar gyfer Blwyddyn 6 yn annog y dysgwyr i ddefnyddio eu sgiliau rhifiadol mewn cyd-destunau bywyd go iawn.

Gweithgaredd 1

Prynu cacennau

Bydd y dysgwyr yn ystyried y ffordd fwyaf cost-effeithiol o brynu 10 cacen.

Mae'n cynnwys:

- Cwestiynau – Prynu cacennau
- Cynllun marcio

Gweithgaredd 2

Y gwerth gorau am arian

Byddan nhw'n cymharu costau gwahanol becynnau o rawnfwyd ac yn ymchwilio i sut y bydd archfarchnadoedd yn eu prisio fesul 100g er mwyn i bobl allu cymharu.

Mae'n cynnwys:

- Esboniwch a holwch – cyfarwyddiadau i athrawon
- Bwrdd gwyn – Pa greision ŷd?
- Taflen adnoddau – Cymharu prisiau

Y sgiliau rhesymu sydd eu hangen

Adnabod	Cyfathrebu	Adolygu
Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau mathemategol wrth ddatrys problemau.	Byddan nhw'n dangos sut maen nhw'n gwneud y gwahanol gyfrifiadau.	Byddan nhw'n trafod, yn cymharu ac yn mireinio eu dulliau.

Sgiliau gweithdrefnol

- **Lluosi a rhannu**
- **Cyfrannedd syml**
- **Cymharu prisiau a deall pa bris yw'r gwerth gorau am arian**

Gweithgaredd 1

Prynu cacennau

Gweithgaredd 1 – Prynu cacennau

neu

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn ystyried gwahanol ffyrdd o brynu 10 cacen pan fydd y cacennau'n cael eu gwerthu mewn pecynnau o 2, 4 a 6.

Yna, byddan nhw'n cymharu'r costau.

Bydd angen

C

Cwestiynau – Prynu cacennau
Un dudalen i bob dysgwr

CM

Cynllun marcio

C

Pecyn o **2** gacen

60c

Pecyn o **4** cacen

£1.00

Pecyn o **6** chacen

£1.80

Mae **pum** gwahanol ffordd o brynu **10** cacen.

Dangoswch nhw i gyd.

Prynu 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6

neu brynu _____

neu brynu _____

neu brynu _____

neu brynu _____

2m

Pa ffordd yw'r ffordd **rataf**? Sut rydych chi'n gwybod?

2m

Gweithgaredd 1 – Prynu cacennau – Cynllun marcio

C	Marciau	Ateb	
i	2m	Yn dangos pob un o'r pedair ffordd wahanol sy'n weddill, mewn unrhyw drefn, h.y. **5** pecyn o **2** **3** pecyn o **2** ac **1** pecyn o **4** **2** becyn o **2** ac **1** pecyn o **6** **1** pecyn o **2** a **2** becyn o **4**	◀ **Ar gyfer 2m neu 1m, anwybyddwch ailadrodd 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6, h.y. peidiwch â chyfrif hon fel ffordd gywir**
	Neu 1m	Yn dangos unrhyw **dair** ffordd wahanol	

ii	2m	Yn nodi mai'r rhataf yw **1** pecyn o **2** a **2** becyn o **4** ac yn cyfiawnhau pam, e.e. • Mae'r rhan fwyaf yn 30c yr un, ond mae'r pecyn o 4 yn 25c yr un felly rydych chi am gael gymaint o'r rheini â phosibl • Mae 1 o 4 ac 1 o 6 yn £2.80 Mae 5 lot o 2 yn £3 Mae 3 o 2 ac 1 o 4 yn £2.80 Mae 2 o 2 ac 1 o 6 yn £3 Mae 1 o 2 a 2 o 4 yn £2.60 felly dyna'r gorau	◀ **Derbyniwch £2.60** ◀ **Ar gyfer 2m, os ydyn nhw'n defnyddio dull sy'n dod o hyd i'r prisiau ac yn eu cymharu, rhaid dangos pob un o'r pum cost yn gywir, naill ai mewn £ neu mewn ceiniogau**
	Neu 1m	Yn nodi mai'r rhataf yw **1** pecyn o **2** a **2** becyn o **4** Neu Yn dangos **25c** a **30c** Neu Yn dangos tri phris cywir o leiaf	◀ **Costau fesul cacen**

Gweithgaredd 1 – Prynu cacennau – Enghreifftiau

Prynu 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6

neu brynu 5 pecyn o 2

neu brynu 1 pecyn o 6 a 2 o 2

neu brynu 2 o 4 ac 1 o 2

neu brynu 3 o 2 ac 1 o 4

Pa ffordd yw'r ffordd **rataf**? Sut rydych chi'n gwybod hynny?

Oherwydd bod pecyn o 2c = 1c am 30c ond mae pecyn o 4c = 1c am 25c hefyd ac mae pecyn o 6c = 30c hefyd.
Felly os prynwch chi gymaint o becynnau o 4 â phosibl fe gewch chi'r pris rhataf.

Rhan i, cywir; **2 farc**

Rhan ii, cywir; **2 farc**

- Mae'r cyfiawnhad hwn yn dangos dealltwriaeth dda o'r broblem. Byddai trafod ystyr y symbol hafal yn help i'r dysgwr hwn wella ei gyfathrebu rhifiadol.

Prynu 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6

neu brynu 5 x 2 = 3

neu brynu 1 x 2 a 2 x 4 = 2.60

neu brynu 3 x 2 ac 1 x 4 = 2.80

neu brynu 2 x 2 ac 1 x 6 = 3.00

Pa ffordd yw'r ffordd **rataf**? Sut rydych chi'n gwybod hynny?

Rhan i, cywir; **2 farc**

- Er bod y cyfathrebu rhifiadol yn wael, mae bwriad i ddangos nifer pob pecyn yn glir felly mae'n dderbyniol.

Rhan ii, o leiaf 3 phris cywir; **1 marc**

- Mae'r costau cywir yn cael eu dangos yn rhan i o'r cwestiwn.

Prynu 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6

neu brynu 2 becyn o 2 gacen ac 1 o 6

neu brynu 2 becyn o 4 cacen a 1 o 2

neu brynu 5 pecyn o 2 gacen

neu brynu 1 pecyn o 4 a 3 pecyn o 2

Pa ffordd yw'r ffordd **rataf**? Sut rydych chi'n gwybod hynny?

2 becyn o 4 ac 1 o 2 oherwydd wrth gyfrifo cyfanswm prisiau'r symiau, dyna'r rhataf

Rhan i, cywir; **2 farc**

Rhan ii, cyfiawnhad anghyflawn; **1 marc**

Gwall cyffredin

Er bod y ffordd rataf wedi'i nodi, nid yw'r costau'n cael eu dangos.

Prynu 1 pecyn o 4 ac 1 pecyn o 6

neu brynu 2 becyn o 4 ac 1 o 2

neu brynu 5 pecyn o 2 gacen

neu brynu 1 pecyn o 4 ac 1 o 6

neu brynu

Pa ffordd yw'r ffordd **rataf**? Sut rydych chi'n gwybod hynny?

Oherwydd eich bod chi'n cael mwy os byddwch chi'n prynu pecynnau mwy mae'n £2.80

Rhan i, dim ond 2 ffordd gywir; **0 marc**

- Mae'r ffordd sy'n cael ei rhoi, 1 pecyn o 4 ac 1 o 6, yn cael ei hailadrodd.

Rhan ii, anghywir; **0 marc**

- Mae'r dysgwr hwn wedi tybio mai prynu pecyn o 6 a phecyn o 4 yw'r ffordd rataf, ac felly nid yw wedi gwirio'r costau eraill.

Gweithgaredd 2

Y gwerth gorau am arian

Gweithgaredd 2 – Y gwerth gorau am arian

neu

Amlinelliad

Bwriedir i'r gweithgaredd hwn ddilyn ymlaen o **Weithgaredd 1 – Prynu cacennau**.

Bydd y dysgwyr yn cymharu costau grawnfwyd brecwast o wahanol faint. Wedyn, byddan nhw'n ymchwilio i weld sut y bydd archfarchnadoedd yn helpu eu cwsmeriaid i gymharu prisiau, ac yn ceisio dod o hyd i enghreifftiau mewn bywyd go iawn pan na fydd y pecyn mwyaf yn cynnig y gwerth gorau am arian.

Bydd angen

BG **Bwrdd gwyn – Pa greision ŷd?**

A **Taflen adnoddau – Cymharu prisiau**

Gweithgaredd 2 – Y gwerth gorau am arian

Esboniwch

Dangoswch **Pa greision ŷd?** ar y bwrdd gwyn. Gofynnwch i'r dysgwyr gydweithio mewn grwpiau bach i benderfynu pa becyn sy'n cynnig y gwerth gorau am arian – ond rhaid iddyn nhw roi rhesymau i gefnogi eu penderfyniadau.

Trafodwch rai o'r dulliau neu bob dull a ddefnyddiwyd. Esboniwch fod llawer o ffyrdd cywir o gymharu prisiau ond mai'r peth pwysicaf yw dangos y dull yn gywir er mwyn i rywun arall allu deall beth sy'n cael ei wneud a pham.

Nawr, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r daflen adnoddau **Cymharu prisiau**. Os bydd angen, llenwch un neu ddwy res er mwyn sicrhau eu bod yn deall yr hyn y gofynnir iddyn nhw ei wneud.

Ateb:

	Pecyn 250g	*Pecyn 500g*	*Pecyn 750g*
250g	*£1.40*	*£1.05*	*£0.90*
500g	*£2.80*	*£2.10*	*£1.80*
750g	*£4.20*	*£3.15*	*£2.70*
50g	*£0.28*	*£0.21*	*£0.18*
100g	*£0.56*	*£0.42*	*£0.36*

Yna, fel gweithgaredd ymchwil yn y cartref, gofynnwch i'r dysgwyr ddarganfod sut y bydd archfarchnadoedd yn helpu cwsmeriaid i gymharu prisiau.

Hefyd, gosodwch yr her isod iddyn nhw.

- Fel rheol, bydd archfarchnadoedd yn sicrhau mai'r pecyn mwyaf yw'r gwerth gorau am arian. Pam? Allwch chi ddod o hyd i rai enghreifftiau lle **nad** yw'r pecyn mwyaf yn cynnig y gwerth gorau am arian?

Holwch

- Os ydych chi'n gwybod faint yw cost 250g, sut allwch chi gyfrifo cost 500g? Beth os ydych chi'n gwybod faint yw cost 500g? Pa gostau sy'n hawdd eu cyfrifo ar sail hynny? Sut?
- Sut mae'r daflen waith yn eich helpu i gymharu prisiau? Pa bwysau fyddech chi'n ei ddefnyddio i gymharu? Pam?
- Os mai pris y pecyn 500g o greision ŷd oedd £2.09 yn hytrach na £2.10, beth fyddai eich ateb wedi bod ar gyfer cost 250g? Pam? *(Mae hyn yn codi'r cwestiwn a ddylid talgrynnu ac mae hynny'n gysylltiedig â pha mor gywir yw'r archfarchnadoedd pan fyddan nhw'n dangos prisiau fesul 100g.)*

BG

Creision ŷd 250g

£1.40

Creision ŷd 500g

£2.10

Creision ŷd 750g

£2.70

A

Creision ŷd 250g

£1.40

Ar gyfer pecyn o Greision ŷd o'r maint hwn, cyfrifwch gost:

250g £1.40

500g _____ (oherwydd _____)

750g _____ (oherwydd _____)

50g _____ (oherwydd _____)

100g _____ (oherwydd _____)

Creision ŷd 500g

£2.10

Ar gyfer pecyn o Greision ŷd o'r maint hwn, cyfrifwch gost:

250g _____ (oherwydd _____)

500g £2.10

750g _____ (oherwydd _____)

50g _____ (oherwydd _____)

100g _____ (oherwydd _____)

Creision ŷd 750g

£2.70

Ar gyfer pecyn o Greision ŷd o'r maint hwn, cyfrifwch gost:

250g _____ (oherwydd _____)

500g _____ (oherwydd _____)

750g £2.70

50g _____ (oherwydd _____)

100g _____ (oherwydd _____)